# Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Glantwymyn 28.2.25

**Neuadd Cymuned Glantwymyn am 7.30yh**

**19:770: Presennol:** Iwan Pughe Jones (Cadeirydd), Dafydd Evans, Rhodri Wigley, Gwenfair Rhys-Davies, Aled Griffiths, Sandra Evans (Clerc)

**19:771: Ymddiheuriadau**: Bedwyr Fychan, William Owen, Gareth Wyn Jones, Gwen Lloyd, Paul Hughes, Gareth Owen, Huw Williams, Elwyn Vaughan, Glyn Jones, Elwyn Vaughan

Yng ngolwg presenoldeb isel yn y cyfarfod hwn, anfonir copi o'r gofrestr at bawb. Pwysleisiwyd pwysigrwydd presenoldeb Cynghorwyr i gynnal trafodaethau cynhwysfawr a phenderfyniadau priodol.

**19:772: Materion Personol:** Llongyfarchiadau i Gareth a Lilian Owen ar enedigaeth eu hŵyr, Siôn Ifan.

**19:773: Datganiadau o ddiddordeb**: Dim

**19:774: Cyflwyno a derbyn cofnodion CCG Ionawr 2024** Nodwyd y dylai 'Pryderon am ddiffyg pafin o'r briffordd i'r parc ddarllen fel a ganlyn 'Pryderon am gyflymder cerbydau a diffyg pafin o'r briffordd i'r parc' gan mae pryderon am gyflymder yw'r prif fater. (19:762) Cynigiwyd bod y cofnodion yn iawn Aled Griffiths ac fe'i heiliwyd gan Dafydd Evans.

**19:775: Materion yn codi o'r cofnodion.**

Problem parcio Darowen. Trafodwyd syniadau posib ar gyfer tacluso'r green.

**19:776: Adroddiad y Clerc** – Bu pryder mawr dros y gaeaf am ddiogelwch ffyrdd yn ardal Darowen. Er adrodd yn aml sawl gwaith i wahanol adrannau ers mis Hydref ac adrodd ar frys dawl tro dros y ffôn adeg yr eira, chafwyd dim ymateb. Mae'r broblem dal i fod yn destun pryder.

Mae Cyngor Sir Powys wedi dweud y byddant yn gosod diffibriliwr Darowen erbyn diwedd mis Mawrth. Mae biniau newydd wedi cael eu harchebu i Gwm Ffrydlan a chafwyd addewid y bydd cais yn cael ei gyflwyno i wagio bin baw cŵn Cwmlline'n amlach.

**19:777:** Cynllunio: 24/1868/FUL Capel Nebo, Glantwymyn SY20 8JZ Bydd cais yn cael ei ail gyflwyno i Bowys gan fod angen arolwg ystlumod newydd.

**19:778: Materion ariannol ac eitemau i'w talu**

- Mrs. Eirlys Pughe £250 – Mynegwyd diolch am y gwaith ar gyfer yr awdit mewnol
- Cyflog y Clerc Mis Ionawr (Mis 10) £ 251.60
- Blewyn Glas £15.00 hysbyseb torri gwair
  Cynigiwyd talu'r uchod gan Dafydd Evans ac fe'i heiliwyd gan Aled Griffiths

**Diweddariad Ariannol CCG a'r Gwynt Chwefror 2025**

| Cyfrif | Rhif y cyfrif | Datganiad banc | Balans – datganiad banc | Sieciau heb eu cyflwyno |
|---|---|---|---|---|
| CCG current | 80405019 | 10.11.25 | £10,362.06 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| *CCG savings* | 80405035 | 11.12.24 | £1,155.89 | |
| Gwynt current | 40052604 | 10.1.25 | £1524.72 | |
| | | | | |
| Gwynt savings | 60849707 | 11.12.24 | £23,657.66 | |
| Mynwent Llanwrin | 40500941 | 11.12.24 | £1,841.94 | |

**19:779.** **Cemaes – pryderon diogelwch** Mynegwyd diolch i Chris Lloyd, Cyngor Sir Powys am ofyn am ymestyn yr arwyddion cyfyngder cyflymder yng Nghemaes a nodir yn 20250221_Powys_20mph_Consultation_review

*" 2.6. Cemmaes U2288: Request: Request from the Community Council to extend the proposed 20mph restricted road speed limit on the street lit section of the U2288 to incorporate the play area that sits beyond the extent of the streetlights…… In line with WG guidance it is proposed to extend the 20mph speed limit as outlined in the plan for reasons of safety due to the presence of the play area. Recommend: Introduce a 20mph speed limit to encompass the extent of the play area as per the plan."*

Cysylltir â Chris Lloyd i fynegi gwerthfawrogiad C C Glantwymyn. Cysylltir hefyd â Tony Kane (Cyngor Sir Powys) a  i fynegi cefnogaeth CC Glantwymyn i'r cynnig.

**19:780: Biniau halen Darowen**. Ddiwedd y flwyddyn ystyrir y sefyllfa ariannol. Os na fydd digon o arian ar gael, clustnodir arian ar gyfer biniau yn y praesept ar gyfer y flwyddyn nesaf.

**19:781**: **Gohebiaeth**

**19:782: Adroddiadau'r Cynghorwyr Llywodraethwyr Ysgol Glantwymyn – Rhodri Wigley**.

Cynhaliwyd is-bwyllgor cyllid yn ddiweddar. Mae 77 o blant ar y gofrestr ar hyn o bryd a bydd y nifer yn cynyddu i 84 ym mis Medi. Daw 15 o blant o'r Cylch Feithrin. Mae'r Dosbarth derbyn yn llawn. Derbyniwyd £5,940 tuag at gostau staffio. Mae'r awdurdod wedi cyflwyno cais i'r cabinet am 7.3 miliwn o bunnoedd i Bowys a fydd yn elwa'r ysgolion gan gynnwys Glantwymyn. 3 dosbarth gyda 3 o athrawon sydd ar hyn o bryd. Mae'r darlun yn galonogol.

**Biosffer Dyfi Iwan Pughe Jones**

Nodwyd bod Eco Dyfi wedi dod i ben ac wedi dod yn rhan o Fiosffer Dyfi. Mae prinder arian yn golygu bod posibilrwydd y daw yn rhan o Dir Canol. Mae sawl un wedi mynegi pryderon gan fod gweledigaethau'r ddau fudiad mor wahanol. Mynegwyd gwerthfawrogiad o gyfaniad Andy Rowlands i'r ardal. Anfonir cerdyn ato.

19:783: Ffyrdd a Phontydd

Tipio anghyfreithlon – teiars Bwlch Glyn Mynydd – mewn layby rhwng Tal-y-wern a Phont Dolgadfan. Adroddir hwn eto.

Layby Dorcorslwyn SY20 9AB– ysbwriel difrifol

Daeth y cyfarfod i ben am 9.25

**<u>Ymddiriedolaeth Melinau Gwynt Cemaes 27ain Chwefror 2025</u>**

Mae pris mainc Ceinws yn fwy na'r hyn a nodwyd yn flaenorol achos cludiant. Y pris terfynol bydd £732.

Penderfynwyd trosglwyddo £10,00.00 o'r cyfrif cadw i'r cyfrif cyfredol.